# Gweithdrefn Cymeradwyo Moeseg Ymchwil ar gyfer Ymchwil a Wneir y tu allan i'r DU

## Cyflwyniad

Yn unol â Pholisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol, dylai unrhyw ymchwil sy’n cael ei chynnal y tu allan i’r DU, gan gynnwys gwledydd yr UE a’r AEE, sicrhau cymeradwyaeth moeseg ymchwil yn gyntaf gan bwyllgor moeseg ymchwil lleol cyn gwneud cais am gymeradwyaeth gan bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Wrecsam o dan y llwybr cais 'Cydnabod Cymeradwyaeth'.

## Cwmpas

Mae Polisi'r Brifysgol a'r weithdrefn hon yr un mor berthnasol i brosiectau a wneir gan staff neu fyfyrwyr y Brifysgol, mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys gwaith ar y cyd â sefydliadau trydydd parti.

## Gweithdrefn

Mae'n rhaid cyflwyno'r holl geisiadau ar gyfer cymeradwyaeth moeseg ymchwil drwy System Moeseg Ymchwil Wrecsam.

### *Sicrhau cymeradwyaeth leol*

Mae'r hyn a ystyrir yn ddulliau ymchwil sy'n dderbyniol yn foesegol yn dibynnu ar amgylchedd diwylliannol, gwleidyddol a rheoleiddiol y lleoliad lle gwneir yr ymchwil. Mae ystyriaethau moesegol yn ymwneud ag ymchwil, sut rydym yn cysyniadu'r syniadau ynghylch hawliau unigol mewn ymchwil, a'r nodweddion gwleidyddol a diwylliannol sensitif o fewn ymchwil yn amrywio ledled y byd. O fewn ymrwymiad y Brifysgol i gynnal y safonau uchaf o foeseg, manwl gywirdeb a gonestrwydd yn ei holl ymchwil, mae'r Brifysgol yn pennu y dylai ymchwil sy'n cael ei gwneud y tu allan i'r DU archwilio'r posibiliadau o sicrhau cymeradwyaeth moeseg ymchwil lleol o fewn y wlad honno.

Dylai ymchwilwyr edrych ar y posibilrwydd o gael cymeradwyaeth o fewn y wlad drwy gysylltu â Sefydliadau Addysg Uwch lleol sydd wedi'u cynnwys yng nghofrestr Pwyllgorau Moeseg Cenedlaethol Sefydliad Iechyd y Byd, a chysylltu ag unrhyw sefydliadau anllywodraethol. Os bydd cymeradwyaeth moeseg ymchwil lleol wedi'i sicrhau, bydd y Brifysgol yn gofyn am gael adolygu'r ddogfennaeth sydd ar waith i sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag egwyddorion a pholisïau'r Brifysgol.

### *Dim cymeradwyaeth leol*

Mewn achosion lle nad oes unrhyw adolygiad moesegol lleol wedi'i wneud, rhaid cyflwyno cais llawn i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol gan ddangos y camau a gymerwyd gan yr ymchwilydd i sicrhau bod yr ymchwil yn bodloni normau moesol lleol. Mae'n rhaid i'r cais ddangos dealltwriaeth lawn o ystyriaethau diwylliannol, cyfreithiol a chymdeithasol penodol yn y wlad lle gwneir yr ymchwil. Rhaid cydymffurfio â gweithdrefnau rheoleiddio'r wlad lle gwneir yr ymchwil, gan gynnwys unrhyw ofynion ar gyfer mynediad ymchwil penodol neu fisâu ymchwil. Mae'r Swyddfa dros Ddiogelu Ymchwil Dynol yn coladu rhestr flynyddol sy'n cynnwys dros 1,000 o ddeddfau, rheoliadau a chanllawiau yn ymwneud â diogelu pynciau dynol mewn mwy na 100 o wledydd. Dylai ymchwilwyr fod yn ymwybodol o'r rheoliadau cyfreithiol a diogelu data hyn cyn gwneud cais am gymeradwyaeth moeseg ymchwil y Brifysgol.

## Egwyddorion

Bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol i ymchwil sy'n cael ei gwneud gan staff, neu fyfyrwyr, y tu allan i'r DU.

- Mae'r Brifysgol yn ceisio sicrhau bod y fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer prosiectau ymchwil sy'n cael eu gwneud y tu allan i'r DU yn bodloni'r safonau moesegol sy'n berthnasol i ymchwil yn y DU, yn ogystal â normau moesegol y lleoliad lle gwneir yr ymchwil.

- Mewn achos lle mae'n bosib y bydd normau diwylliannol lleol yn ei gwneud hi'n anymarferol i'r fethodoleg ymchwil gydymffurfio'n llawn ag arfer y DU, er enghraifft, y broses o gael cydsyniad ysgrifenedig ar sail gwybodaeth, byddai'n rhaid gwneud yr ymchwil yn ôl safonau moesegol gwahanol a'u hystyrir yn briodol yn lleol. Rhaid manylu ar wyriadau o'r fath oddi wrth y safonau sy'n berthnasol i ymchwil yn y DU mewn cais am gymeradwyaeth moeseg ymchwil y Brifysgol.
- Mae'n rhaid i bob prosiect ymchwil a wneir gan staff a myfyrwyr y tu allan i'r DU dderbyn cymeradwyaeth moeseg gan y Brifysgol. Lle bo'n bosibl, rhaid cael cymeradwyaeth moeseg ymchwil lleol i ddechrau, ond mewn rhai achosion, efallai y bydd y pwyllgor lleol yn gofyn am gymeradwyaeth gan bwyllgor moeseg ymchwil y Brifysgol yn gyntaf.
- Bydd ymchwilwyr ac aelodau o'r pwyllgor moeseg ymchwil sy'n adolygu ceisiadau rhyngwladol yn ystyried y materion moesegol posibl sy'n ymwneud â'r prif wahaniaethau a all godi mewn ymchwil a wneir mewn gwledydd ag economïau gwan, neu wledydd sy'n profi gwrthdaro neu ansefydlogrwydd gwleidyddol.
- Anogir ymchwilwyr sy'n gwneud ymchwil mewn lleoliadau rhyngwladol i ffurfio cysylltiadau gyda sefydliadau lleol, neu'r rheiny a all fod yn gweithredu fel 'porthgeidwaid' o ran ymwneud â'r boblogaeth sydd dan sylw yn yr ymchwil.
- Bydd ymchwilwyr yn cwblhau'r asesiad risg perthnasol ar gyfer teithio rhyngwladol, a bydd ganddynt gynllun cyfathrebu yn ei le gyda'r Brifysgol wrth gynnal yr ymchwil.

## Deunyddiau mewn iaith arall

Os bydd ymgeiswyr wedi cyflwyno cais i Bwyllgor Moeseg Ymchwil y tu allan i'r DU mewn iaith arall, ac nid Saesneg, dylent ddarparu copi wedi'i gyfieithu i Bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Wrecsam cyn y gellir cynnal yr adolygiad. Dylai ymgeiswyr gynnwys unrhyw ddeunyddiau fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer yr ymchwil arfaethedig yn yr iaith y mae'r deunyddiau wedi'u dosbarthu, yn ogystal â chyfieithiad Saesneg.

## Manylion Cyswllt

Dylid cyfeirio'r holl ymholiadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn hon at y Swyddfa Ymchwil - rescadmin@glyndwr.ac.uk